OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2004 Rhif 2920 (Cy.259)

Y DRETH GYNGOR, CYMRU

Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Atebolrwydd Perchenogion) (Diwygio) (Cymru) 2004

Wedi'u gwneud - -	*9 Tachwedd 2004*
Yn dod i rym - -	*1 Ebrill 2005*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 8(1) a 113(1) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992(**1**) drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Atebolrwydd Perchenogion) (Diwygio) (Cymru) 2004 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2005.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig.

Cartrefi gofal preswyl

2. Yn rheoliad 2 o Reoliadau'r Dreth Gyngor (Atebolrwydd Perchenogion) 1992(**2**), yn lle Dosbarth A rhodder—

"**Class A**

(a) a care home within the meaning of the Care Standards Act 2000(**3**), in respect of which a person is registered in accordance with Part 2 of that Act;

(b) a building or part of a building in which residential accommodation is provided under section 21 of the National Assistance Act 1948(**4**)); or

(c) a hostel within the meaning given by paragraph 7 of Schedule 1(**5**) to the Act.".

(**1**) 1992 p.14. Trosglwyddwyd y pwerau hyn, mewn perthynas â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru drwy Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672); *gweler* y cyfeiriad at Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 yn Atodlen 1.
(**2**) S.I. 1992/551.
(**3**) 2000 p.14.
(**4**) 1948 p.29.
(**5**) Diwygiwyd paragraff 7 o Atodlen 1 gan Ddeddf Safonau Gofal 2000, *gweler* adran 116 a pharagraff 20 Atodlen 4 o'r Ddeddf honno. I weld y diffiniad o "hostel" *gweler* erthygl 6 o Orchymyn y Dreth Gyngor (Diystyru Gostyngiadau) 1992 (O.S. 1992/548) fel ag y'i hamnewidiwyd gan erthygl 4 o Orchymyn y Dreth Gyngor (Anheddau Taliadwy, Anheddau Esempt a Diystyru Gostyngiadau) (Diwygio) (Cymru) 2004 (O.S. 2004/2921 (Cy. 260)).